12 ffordd i:

wneud y Nadolig yn haws i chi ac yn well i'ch cwsmeriaid

1 Byddwch yn barod am Ddydd Llun Seiber

Dydd Llun 28 Tachwedd fydd 'Dydd Llun Seiber' eleni – neu ddiwrnod siopa ar-lein prysuraf 2011*. Ar yr un adeg y llynedd, cofnododd Visa Europe 2,600 o weithrediadau gwerth cyfanswm o £184,000 bob munud.

Sut i wneud y gorau ohoni:

- **Rhowch hwb i siopwyr gyda phost uniongyrchol** – hybir 25% o'r pryniannau a wneir ar-lein pan fo pobl yn derbyn catalogau neu bostdafliadau**. Anfonwch daflen Dydd Llun Seiber am ddeliau gwych am gyn lleied â 63c yr eitem gyda **Mailshots Online**
- **Trefnwch staff ychwanegol i ddewis, pacio ac anfon** – a gadewch i'r Post Brenhinol gario peth o'r straen drwy gasglu archebion yn uniongyrchol o'ch busnes. Darllenwch fwy ar d9
- **Cynigiwch ddosbarthu neu ddychwelyd yn ddi-dâl** – mae cwsmeriaid wrth eu bodd gyda hyn. Os nad yw hynny'n bosibl ar gyfer pob eitem, gallech eu cynnig ar archebion dros swm arbennig. Er enghraifft, os yw archeb arferol yn werth £15, cynigiwch ddosbarthiad di-dâl ar archebion dros £25. Os derbyniwch dros 2,000 o ddychweliadau'r flwyddyn, mae **Packetpost Returns** yn cynnig arbedion mawr. Mae dychwelyd yn ddi-dâl i'ch cwsmeriaid ac maent yn gwella eich perthynas â hwy

MWY O WYBODAETH:
www.royalmail.com/packetpostreturns
www.mailshotsonline.com

Lluniau: Shutterstock, oni nodir yn wahanol
*IMRG 2010 **Royal Mail Delivery Matters 2010

2

Gadewch i ni gasglu

Pan fyddwch wrthi'n brysur yn cyflenwi archebion, mae gorfod anfon rhywun i'r swyddfa bost yn ychwanegu at y pwysau. Felly gadewch i'r Post Brenhinol ddod atoch chi. Gyda'n gwasanaeth hyblyg **Customer Collections**, fe fedrwch drefnu casgliadau rheolaidd ar gyfer y flwyddyn, chwe diwrnod yr wythnos neu drefnu un ymweliad yn unig.

MWY O WYBODAETH:
www.royalmail.com/customercollections

4

Helpwch siopwyr munud olaf

I'r rhai sy'n gadael prynu anrhegion nes ei bod hi bron yn rhy hwyr, gall **Special Delivery** y Post Brenhinol achub y sefyllfa. Fe all ddosbarthu anrhegion erbyn 9am neu 1pm y diwrnod wedyn, hyd yn oed ar ddydd Sadwrn. Cymerir llofnod fel prawf o'r derbyn ac mae'r haen uchaf yn cynnig iawndal am golli neu ddifrodi eitemau gwerth hyd at £2,500*.

MWY O WYBODAETH:
www.royalmail.com/specialdelivery

3

Arddangoswch eich hun dramor

Ar gyfandir Ewrop yn unig mae 700 miliwn o bobl – ond sut i'w cyrraedd nhw? Mae ein gwasanaethau rhyngwladol yn cynnwys **Airsure,** gwasanaeth cyflym, olrheiniadwy gyda chadarnhad o'r dosbarthu yn achos nwyddau sy'n mynd i dros 30 gwlad, **International Signed For** sy'n cynnig olrhain o'r-dechrau-i'r-diwedd i 18 gwlad, tra mae **International Destination Sort** yn cynnig ffordd gost-effeithiol o gyrraedd cwsmeriaid tramor. Mae Vernon Kerswell, sylfaenydd y cwmni dyfeisiau electronig **Extremefliers.co.uk**, yn anfon ei teclynnau, gweler isod, gydag International Destination Sort. 'Y Nadolig yma rydym ni'n disgwyl gwerthu 100,000 o'r Robocopter GST, a 50,000 ohonynt yn mynd tramor – yr Unol Daleithiau ydi un o'n marchnadoedd mwyaf ni,' meddai. 'Mae International Destination Sort yn golygu bod rhagddidoli'n eitemau'n rhoi cyfradd bostio ratach i ni, ac fe rydym yn hoffi hynny – a'n cwsmeriaid hefyd.'

Pam ei ddefnyddio?

- **Gellir anfon unrhyw fath o bost** gydag International Destination Sort
- **Didolwch eich post a'i roi mewn bagiau** cyn ei roi i ni i fod yn gymwys ar gyfer cyfradd bostio ryngwladol gystadleuol

MWY O WYBODAETH:
www.royalmail.com/internationalbusinesshub

*Mae'n dibynnu ar lefel yr iawndal a brynir. Gweler manylion ar y wefan. **Royal Mail Delivery Matters 2010 ***Tpoll 2011

5

Sicrhewch gwsmeriaid bod anrheg ar ei ffordd

Mae tua 50% o gwsmeriaid eisiau gwybod ble mae eu nwyddau unwaith maen nhw wedi cael eu harchebu**. Gyda **Royal Mail Tracked**, medrwch gynnig y sicrwydd hwnnw i'ch cwsmeriaid. Byddant yn derbyn ebost awtomatig pan anfonir eu heitemau a rhif olrhain unigryw i'w ddefnyddio arlein i wirio'u cynnydd. Mae'r gwasanaeth yn helpu i leihau'r nifer o alwadau i wasanaeth cwsmeriaid pan fyddwch eisoes yn brysur.

MWY O WYBODAETH:
www.royalmail.com/tracked

6

Cynigiwch gyfleustra ychwanegol

I siopwyr sydd heb fod gartref i dderbyn dosbarthiad – neu sydd eisiau i anrheg fod yn gyfrinach i un o'u hanwyliaid – medrwch gynnig **Royal Mail Safeplace**, sy'n gadael iddynt ddewis lle i'w nwyddau gael eu gadael. Mae ar gael gyda **Royal Mail Tracked**. Neu cynigiwch **Local Collect Business**, sy'n gadael i gwsmeriaid godi eitemau o swyddfa bost leol ar adeg sy'n gyfleus iddynt hwy. Hefyd, rydym yn treialu menter mewn ardaloedd detholedig rhwng Tachwedd a Chwefror ar ôl i 91.5% o'n cwsmeriaid ddweud yr hoffent fedru dewis, pan maen nhw oddi cartref, adael eitemau gyda chymydog ar yr amod bod modd iddyn nhw optio allan o'r gwasanaeth***.

MWY O WYBODAETH:
www.royalmail.com/safeplace
www.royalmail.com/localcollect